ARCHIF MENYWOD CYMRU
WOMEN'S ARCHIVE OF WALES

ANNUAL REPORT

ADRODDIAD BLYNYDDOL

2015 – 2016

The Women's Archive of Wales promotes the recognition of women in Welsh history and the preservation of sources of women's history in Wales

Mae Archif Menywod Cymru yn hyrwyddo adnabod menywod yn hanes Cymru a diogelu ffynonellau am hanes menywod yng Nghymru

www.womensarchivewales.org

Registered Charity No. / Elusen Gofrestredig Rhif. 1158204

PRESIDENT'S INTRODUCTION – PROFESSOR DEIRDRE BEDDOE
CYFLWYNIAD Y LLYWYDD – YR ATHRO DEIRDRE BEDDOE

Once again it is a great pleasure to introduce a report that demonstrates a year of achievement for the Women's Archive of Wales. Another successful project completed, a wonderful conference in Swansea, public lectures and many other events, not to mention the steady work of the committee in forwarding our key aims. My very sincere thanks to all who have contributed over the past year.

Unwaith eto mae'n bleser gen i gyflwyno adroddiad sy'n tystio i flwyddyn arall lwyddiannus i Archif Menywod Cymru. Cwblhawyd prosiect llwyddiannus arall, cynhaliwyd cynhadledd ardderchog yn Abertawe, cafwyd darlithoedd cyhoeddus a sawl digwyddiad arall, ac at hyn bu'r pwyllgor wrthi'n dyfal yn hyrwyddo ein nodau allweddol. Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i bawb sydd wedi cyfrannu at hyn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

CHAIR'S REPORT: April 2015 – March 2016
ADRODDIAD Y CADEIRYDD: Ebrill 2015 – Mawrth 2016

This has been another active and busy year for the Women's Archive of Wales. On the whole it has been a successful one and we have continued to achieve our objectives of advancing public education and learning about the history of women in Wales, and ensuring the preservation of their records.

In planning our activities for the year we kept in mind the Charity Commissions guidance on public benefit at our trustee meetings.

Bu hon yn flwyddyn brysur a diwyd arall i Archif Menywod Cymru. Ar y cyfan bu'n flwyddyn lwyddiannus ac rydym wedi parhau i gyflawni'n hamcanion, sef hyrwyddo addysg gyhoeddus a dysg am hanes menywod yng Nghymru, a sicrhau cadw eu cofnodion.

Wrth i ni gynllunio'n gweithgareddau ar gyfer y flwyddyn rydym wedi cadw mewn cof yn ein cyfarfodydd i ymddiriedolwyr ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ynglŷn â darparu budd i'r cyhoedd.

SPECIAL PROJECTS

The first significant event of this year was the start of our HLF-funded World War I project, Women and World War I: the Welsh Experience. The aim of this was to retrieve any remaining memories, memorabilia and stories of women who lived through the war, and to mark the centenary of the year in which women were first actively encouraged to undertake work formerly performed by men. Thanks to the project manager, Caroline Fairclough and also to Catrin Stevens, who gave invaluable advice and back-up based on her experience of managing the earlier Voices from the Factory Floor project. It has proved another success which has more than achieved its initial goals. A dedicated website (www.womenandwar.wales) presents a much neglected aspect of the Great War – the many ways in which it affected the lives of women. The website was created by Technoleg Taliesin Cyf, and is well worth browsing through. During the project, a number of documents etc. were donated to us and are now deposited in the appropriate archive services. This project again preserves the history and memories of Welsh women which could otherwise have been lost forever. Finally, a set of

eight posters each featuring information and images about one of the roles fulfilled by women during the war were professionally designed and printed. We have sent a set of these posters to every secondary school in Wales. Teachers have welcomed them as teaching resources for an aspect of history which does not appear to be widely taught in our schools.

On this topic, there is concern among our members about the lack of a specific Welsh identity in the school curriculum, and also the minimal focus on women in the history taught in our schools. The committee would be pleased to hear from any other members who share this concern.

With regard to our two on-going small projects, progress has been slow but not non-existent. The committee decided that our efforts to recruit Prominent Women, or at least persuade them to deposit their papers 'via AMC/WAW', should target one category at a time. Thus during the past year we have begun to contact those Welsh female MPs and AMs who retired at the last election. Sad to say this has not so far produced spectacular results. We continue to collect names and data for the projected Memorable Women database which will eventually provide a research resource for anyone embarking on research about individual women in Wales

PROSIECTAU ARBENNIG

Digwyddiad arwyddocaol y flwyddyn eleni oedd dechrau ar ein prosiect ar y Rhyfel Byd Cyntaf, a gyllidwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri: Menywod yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf: y profiad Cymreig. Bwriad hwn oedd darganfod atgofion, memorabilia a straeon am fenywod a oedd yn byw yn ystod y rhyfel, ac i nodi canmlwyddiant y flwyddyn pan ddechreuwyd annog menywod o ddifri i ymgymryd â gwaith a wnaethpwyd cyn hynny gan ddynion. Diolch i reolwr y prosiect, Caroline Fairclough a hefyd i Catrin Stevens, a roddodd gyngor amhrisiadwy a chefnogaeth iddi yn seiliedig ar ei phrofiad yn rheoli'r prosiect cynt, Lleisiau o Lawr y Ffatri. Bu'n llwyddiant arall ac mae wedi mwy na chyflawni ei nodau cychwynnol. Mae'r wefan benodedig (www.menywodarhyfel.cymru) yn cyflwyno agwedd a esgeuluswyd yn fawr am y Rhyfel Byd Cyntaf – y llu ffyrdd yr effeithiwyd ar fywydau menywod. Crëwyd y wefan gan Dechnoleg Taliesin Cyf., ac mae'n wirioneddol werth pori drwyddi. Yn ystod y prosiect, rhoddwyd nifer o ddogfennau a.y.b. i ni ac maent bellach wedi eu rhoi ar adnau yn yr archifdai priodol. Mae'r prosiect hwn eto yn diogelu hanesion menywod o Gymru a fyddai wedi mynd ar ddifancoll heblaw amdano. Yn olaf, cafodd cyfres o wyth poster yn cynnwys gwybodaeth a delweddau o'r rolau a gyflawnodd menywod yn ystod y rhyfel eu cynllunio a'u hargraffu yn broffesiynol. Rydym wedi anfon set o'r posteri hyn i bob ysgol uwchradd yng Nghymru. Mae athrawon wedi eu croesawu fel adnoddau dysgu ar gyfer agwedd ar hanes nad yw'n cael sylw dyladwy yn ein hysgolion.

Ar y pwnc hwn, mae cryn gonsýrn ymysg ein haelodau ynglŷn â diffyg hunaniaeth Gymreig benodol yn y cwricwlwm ysgol, a hefyd y diffyg ffocws ar fenywod yn yr hanes a addysgir mewn ysgolion. Byddai'r pwyllgor yn falch i glywed gan unrhyw aelodau eraill sy'n rhannu'r consýrn hwn.

O safbwynt ein dau brosiect bach parhaus, bu peth cynnydd ond dim llawer. Penderfynodd y pwyllgor y dylai ein hymdrechion i recriwtio Menywod Blaenllaw, neu o leiaf eu perswadio i roi eu papurau ar adnau 'trwy gyfrwng AMC/WAW', dargedu un categori ar y tro. Felly, yn ystod y flwyddyn

ddiwethaf rydym wedi dechrau cysylltu ag ASau ac ACau benywaidd o Gymru a ymddeolodd yn yr etholiad diwethaf. Rydym yn dal i gasglu enwau a data ar gyfer y gronfa ddata arfaethedig o Fenywod Cofiadwy a fydd yn y pen draw yn cynnig adnodd ymchwil ar gyfer unrhyw un sy'n dechrau ymchwilio i fenywod unigol yng Nghymru.

THE YEAR UNDER REVIEW

During the year I have represented AMC/WAW in various ways on a number of occasions. In May I visited Narbeth Museum to meet the Education Officer Emma Baines and see an excellent exhibition created by schoolchildren who had researched the lives of local women. In June I was invited to a reception at the Pierhead in Cardiff, celebrating the centenary of the Women's Institute. In October I visited Broneirion in Llandinam, the headquarters of Girl Guiding Cymru, to meet the Assistant Commissioner Viv Craig, who showed me the extensive archive they have amassed over the years and which has now been digitised and will be deposited in the National Library of Wales. I am hoping they will agree to deposit it 'via AMC/WAW'. This arrangement, which we already have with some other organisations, makes no difference to the status of the collection within NLW, but does allow us to include it in the listing of collections on our website, which we hope will, over time, become the principal resource for researchers of women's history in Wales.

Honno – the Welsh Women's Press – invited Deirdre Beddoe, Gwyneth Tyson Roberts and me to speak at the launch of their new edition of *Betsy Cadwaladyr: a Balaclava Nurse*. This was held in Newton, Swansea, in May, and hosted by Cover to Cover, the local bookshop. In July, at the Welsh Heritage Schools Initiative award ceremony in Cardiff, Avril Rolph presented our prize of £300 to Penboyr Voluntary Aided School for their project on William Morgan and Mari Jones and the Bible in Wales. For a number of years, AMC/WAW has offered a prize in this competition for a school project which includes an element of women's history. This is part of our effort to encourage the inclusion of women in the history taught in Welsh schools.

In July, at a ceremony held in Y Drwm in the National Library of Wales, all the recordings, photos and metadata collected during our Voices from the Factory Floor HLF-funded project were deposited in the National Sound and Screen Archive. Catrin Stevens made the presentation and the event was attended by officers of the NSSA and the NLW as well as members of AMC/WAW and some of the interviewees.

Our lecture at the 2015 National Eisteddfod, which was held at Meifod, Powys, was delivered by Dr Dinah Evans of Bangor University. Her topic was the lives and work of women in Wales during the First World War. This was followed by Catrin Stevens reporting on an on-going search for the names of women on First and Second World War memorials. The session was chaired by Dr Siân Rhiannon Williams. Our annual Eisteddfod lectures are organised by a small working group: Catrin Stevens, Siân Rhiannon Williams, Roseanne Reeves and Luned Meredith, who have done a splendid job of establishing this as a regular and much appreciated event.

Members of the committee attended three events in the Senedd during the year: in July an event to launch an exhibition of photos from Voices from the Factory Floor project; in September an event celebrating the 25th anniversary of the Welsh Heritage Schools Initiative; and in November an event in which the Heritage Lottery Fund showcased some of the World War I Projects they have funded (including ours). All these occasions were useful for networking and talking about AMC/WAW to AMs and members of other organisations.

Another annual event is the Women's History Seminar held in Bangor University in association with the university's women's history MA course, which once again attracted a good attendance and included some excellent papers. Thanks to Shan Robinson and Val Wakefield for their work on this.

Our 18h Conference and AGM was held this year in the conference room of Tapestri in Swansea. Fifty-eight women and men enjoyed a really great selection of papers and some stimulating discussions.

We recruited some new members and all thoroughly enjoyed ourselves. The conference dinner was provided in Tapestri's bistro on the Saturday evening.

ADOLYGIAD O'R FLWYDDYN

Yn ystod y flwyddyn rwyf wedi cynrychioli AMC/WAW mewn sawl ffordd ac ar nifer o achlysuron. Ym Mai ymwelais ag Amgueddfa Arberth i gwrdd ag Emma Baines, y Swyddog Addysg, a gweld arddangosfa ardderchog a grëwyd gan ddisgyblion a fu'n ymchwilio i fywydau menywod lleol. Ym Mehefin cefais fy ngwahodd i dderbyniad yn y Pierhead, Caerdydd, i ddathlu canmlwyddiant Sefydliad y Merched. Ym mis Hydref ymwelais â Broneirion yn Llandinam, pencadlys Geidiau Cymru, i gwrdd â'r Comisiynydd Cynorthwyol Viv Craig, a ddangosodd i mi'r archif enfawr a gasglwyd dros y blynyddoedd ac sydd wedi ei digideiddio yn awr ac a gaiff ei rhoi ar adnau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Rwy'n gobeithio y byddant yn barod i'w rhoi ar adnau 'trwy gyfrwng AMC/WAW'. Nid yw'r trefniant hwn, sydd gennym eisoes gyda rhai mudiadau eraill, yn gwneud unrhyw wahaniaeth i statws y casgliad gyda LLGC, ond y mae yn caniatâu i ni ei gynnwys ymhlith y rhestrau o'n casgliadau ar ein gwefan, a fydd gobeithio, ymhen amser, yn dod yn brif adnodd ar gyfer ymchwilio hanes menywod yng Nghymru.

Gwahoddodd Honno – Gwasg Menywod Cymru - Deirdre Beddoe, Gwyneth Tyson Roberts a minnau i siarad yn lansiad ei hargraffiad newydd o *Betsy Cadwaladyr: a Balaclava Nurse*. Cynhaliwyd hwn yn Newton, Abertawe, ym Mai a noddwyd y noson gan Cover, y siop lyfrau leol. Yn Ngorffennaf, yn seremoni wobrwyo Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig yng Nghaerdydd, cyflwynodd Avril Rolph ein gwobr o £300 i Ysgol Gymorthedig Wirfoddol Penboyr am ei phrosiect ar William Morgan, Mari Jones a'r Beibl. Mae AMC/WAW wedi bod yn cynnig gwobr yn y gystadleuaeth hon am brosiect ysgol yn cynnwys elfen o hanes menywod ers sawl blwyddyn. Mae hyn yn rhan o'n hymdrech i hyrwyddo cynnwys menywod yn yr hanes a addysgir yn ysgolion Cymru.

Yng Ngorffennaf, mewn seremoni yn y Drwm yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, rhoddwyd yr holl recordiadau, lluniau a metadata a gasglwyd yn ystod y prosiect Lleisiau o Lawr y Ffatri ac a gyllidwyd trwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar adnau yn yr Archif Sgrin a Sain Genedlaethol. Catrin Stevens (3ydd o'r dde/ third from right) a wnaeth y cyflwyniad a mynychwyd y digwyddiad gan swyddogion yr ASSG a LLGC yn ogystal ag aelodau AMC/WAW a rhai o'r cyfweleion. Llun / Photograph: Rosemary Scadden

Dr Dinah Evans o Brifysgol Bangor, draddododd ein darlith yn Eisteddfod Genedlaethol 2015, a gynhaliwyd ym Meifod, Powys. Ei phwnc oedd bywydau a gwaith menywod yng Nghymru yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Dilynwyd hyn gan Catrin Stevens yn sôn am yr ymchwil parhaus i enwau menywod ar gofebau'r Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail. Cadeiriwyd y sesiwn gan Dr Siân Rhiannon Williams. Trefnir ein darlithoedd blynyddol yn yr Eisteddfod gan weithgor bychan: Catrin Stevens, Siân Rhiannon Williams, Roseanne Reeves a Luned Meredith, ac mae wedi gwneud gwaith ysblennydd i sefydlu'r sesiwn hon yn ddigwyddiad rheolaidd a werthfawrogir yn fawr.

Mynychodd aelodau'r pwyllgor dri digwyddiad yn y Senedd eleni: yng Ngorffennaf cynhaliwyd digwyddiad i lansio arddangosfa o luniau o'r prosiect Lleisiau o Lawr y Ffatri; ym Medi cafwyd digwyddiad i ddathlu 25ain pen-blwydd Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig; ac yn Nhachwedd cafwyd digwyddiad lle roedd Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn arddangos rhai o'r prosiectau y maent wedi eu cyllido (gan gynnwys un AMC) yn ymwneud â'r Rhyfel Byd Cyntaf. Bu'r achlysuron hyn yn ddefnyddiol ar gyfer rhwydweithio a siarad am AMC/WAW gyda ACau ac aelodau o fudiadau eraill.

Digwyddiad blynyddol arall yw'r Seminar Hanes Menywod a gynhelir ym Mhrifysgol Bangor mewn cydweithrediad â chwrs M.A. hanes menywod y brifysgol, ac unwaith eto denwyd niferoedd da a chafwyd papurau ardderchog. Diolch i Shan Robinson a Val Wakefield am gyfrannu at y trefnu.

Cynhaliwyd ein 18fed Cynhadledd a'n Cyfarfod Blynyddol eleni yn ystafell gynhadledd Tapestri yn Abertawe. Mwynheuodd pum deg wyth o fenywod a dynion ddetholiad rhagorol o bapurau a chafwyd sawl trafodaeth ysgogol. Recriwtion ni rai aelodau newydd a mwynheuodd pawb yn fawr. Darparwyd cinio'r gynhaledd gan fistro Tapestri ar y nos Sadwrn.

COLLABORATION WITH OTHER ORGANISATIONS

July saw the second Joint AMC/WAW & Llafur Dayschool. This time it was hosted by Big Pit National Mining Museum and the theme was 'Understanding the Miners' Strike in South Wales: Women, Men and Support Groups in 1984/85. In conversation after the event, concern was expressed about the then recent report on the curriculum in Wales and its assessment, and in particular the absence of matters relating to women and children in the curriculum. Subsequently discussions were held about holding a pressure group, but not much progress has been made.

For some years local Archive members in Swansea have worked with City Councillors to include women in their Blue Plaque scheme. Thus on a cold February day Paulette Pelosi (centre/yn y canol) proudly spoke of her ancestors, the Women of Mumbles Head, at the unveiling of the third women's plaque. The audience who braved the Atlantic blast on Mumbles Pier included a number of our members, and I had the honour of being interviewed by Radio Oystermouth about the Archive! Photograph / Llun David Evans

As usual, we supported the annual Ursula Masson Memorial Lecture, hosted by the University of South Wales at Ty Crawshay in Pontypridd, which was held on 6th March. The speaker was Neil

Evans, Hon. Research Fellow in Welsh History at Cardiff and Bangor universities, and a close friend and colleague of Ursula's. His lecture title was *'"We Are a Happy Company:" the Culture of Women's Movements in Wales.'*

We were approached by the Heritage Co-ordinator of the National Botanic Gardens, Wales, with the suggestion that members of AMC/WAW might work with other volunteers in their Regency Restoration project specifically to research the lives of women who have been connected with the Middleton estate in the past. Unfortunately there was very little response from our members.

CYDWEITHIO GYDA MUDIADAU ERAILL

Yng Ngorffennaf cynhaliwyd yr ail Ysgol Undydd ar y cyd rhwng AMC/WAW a Llafur. Cynhaliwyd hon yn Amgueddfa Lofaol Genedlaethol Big Pit a'r thema oedd 'Deall Streic y Glowyr yn ne Cymru: Menywod a Dynion a'r Grwpiau Cefnogi yn 1984/85'. Mewn trafodaeth wedi'r digwyddiad mynegwyd gofid am yr adroddiad diweddar ar y cwricwlwm yng Nghymru a'i asesiad, ac yn arbennig absenoldeb materion yn ymwneud â menywod a phlant yn y cwricwlwm. Cynhaliwyd trafodaethau pellach gyda'r nod o sefydlu grŵp pwyso, ond ni welwyd llawer o gynnydd yn hyn o beth.

Ers rhai blynyddoedd mae aelodau'r Archif yn Abertawe wedi bod yn gweithio gyda Chynghorwyr y Ddinas i gynnwys menywod yn eu cynllun Placiau Glas. Felly, ar fore oer yn Chwefror bu Paulette Pelosi yn siarad yn llawn balchder am ei hynafiaid, Menywod Penrhyn y Mwmbwls, ac yn dadorchuddio'r trydydd plac i fenywod. Ymhlith y gynulleidfa a oedd yn ddigon dewr i herio gwynt Môr yr Iweryddd ar Bier Mwmbwls roedd nifer o'n haelodau a chefais i'r anrhydedd o gael fy nghyfweld am yr Archif gan Radio Ystumllwynarth!

Fel arfer, buom yn cefnogi Darlith Goffa flynyddol Ursula Masson, a noddwyd gan Brifysgol De Cymru yn Nhŷ Crawshay, Pontypridd, ac a gynhaliwyd ar 6ed Mawrth. Y siaradwr oedd Neil Evans, Cymrodor Ymchwil Anrhydeddus mewn Hanes Cymru ym mhrifysgolion Caerdydd a Bangor a chydweithiwr a ffrind agos i Ursula. Teitl ei ddarlith oedd '"We Are a Happy Company:" the Culture of Women's Movements in Wales.'

Gofynnodd Cydlynydd Treftadaeth Gerddi Botaneg Cenedlaethol Cymru a fyddai aelod o AMC/WAW yn gallu cydweithio gyda gwirfoddolwyr eraill ar eu prosiect Adfer Regentaidd yn arbennig felly i ymchwilio hanes menywod a fu â chysylltiad â stad Middleton yn y gorffennol. Yn anffodus, ni chafwyd fawr o ymateb i'r cais gan ein haelodau.

COMMUNICATIONS: WEBSITE AND NEWSLETTER

Our members' quarterly Newsletter, under the editorship of Caroline Fairclough, has continued to be published regularly and to its usual high standard. We encourage contributions from members in addition to current news about forthcoming events, the progress of project work and recent donations to the Archive. Caroline has also been the editor of our website (www.womensarchivewales.org). This in addition to the enormous amount of work in managing the WWI project: she deserves our thanks and appreciation.

In November 2015, we invited tenders for the design of a new and more comprehensive website, and in December we accepted the tender from Technoleg Taliesin Cyf, who have already created the websites for the VFF and WWI research projects. Our intention is that the new website will provide a wider range of information and resources for its users and will also facilitate aspects of running the Archive, especially membership records and communications.

CYFATHREBU: GWEFAN a CHYLCHLYTHYR

Mae ein Cylchlythyr chwarterol i aelodau, dan olygyddiaeth Caroline Fairclough, wedi parhau i gael ei argraffu'n rheolaidd ac i'w safon uchel arferol. Rydym yn cefnogi cyfraniadau gan aelodau yn ogystal â newyddion cyfredol am ddigwyddiadau sydd ar y gweill, cynnydd ein prosiectau a rhoddion diweddar i'r Archif. At hyn, mae Caroline wedi bod yn golygu ein gwefan (www.womensarchivewales.org). Mae hyn yn ychwanegol at y gwaith mawr o reoli'r prosiect ar y Rhyfel Byd Cyntaf: mae'n haeddu ein diolch a'n gwerthfawrogiad.

Yn Nhachwedd gwahoddon ni dendrau i gynllunio gwefan newydd a mwy cynhwysfawr, ac yn Rhagfyr derbynion ni dendr gan Dechnoleg Taliesin Cyf., sydd eisoes wedi creu gwefannau ar gyfer y prosiectau ymchwil Lleisiau a'r RhBC. Bwriadwn i'n gwefan newydd ddarparu ystod ehangach o wybodaeth ac adnoddau i'w defnyddwyr ac y bydd yn hwyluso agweddau eraill ar redeg yr Archif, yn arbennig felly gofnodion aelodaeth a chyfathrebu.

COLLECTIONS

We continue to work with our professional Archives Advisor, Susan Edwards, and our Collections Officer, Rhian Diggins, both of the Glamorgan Archives, to build our collections and ensure their preservation and public accessibility. Both of our recent major projects, Voices from The Factory Floor and Women in World War I, resulted in a number of donations, which have been deposited in their relevant archive service. We were given an original programme of the Pageant of Famous Women which was held in Swansea's Albert Hall on 5th May 1910.

CASGLIADAU

Rydym yn parhau i weithio gyda'n Hymgynghorydd Archifau, Susan Edwards, a'n Swyddog Casgliadau, Rhian Diggins, ill dwy o Archifdy Morgannwg, i ychwanegu at ein casgliadau a sicrhau eu cadw a'u bod yn hygyrch i'r cyhoedd. Cynhyrchodd ein dau brosiect mawr diweddar, Lleisiau o Lawr y Ffatri a Menywod yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, nifer o roddion, ac maent wedi eu cadw yn y gwasanaeth archifau perthnasol. Derbyniasom raglen wreiddiol y *Pageant of Famous Women* a gynhaliwyd yn Neuadd Albert, Abertawe ar y 5ed Mai, 1910.

AMC/WAW COMMITTEE

Your committee comprises eleven members plus four advisers and our President. Each of us has a specific role and we also work as a group to forward the aims of the Archive and ensure the smooth running of our organisation. During the year we were sad to lose two committee members, Betty Foster, due to family concerns, and Natalie Davies, whose new employment took her too far into England to attend our meetings. In their place we have welcomed Catrin Edwards, formerly a project worker on the VFF project and a gifted musician and TV director and producer, and Elissa Evans, who was so inspired by our 2015 conference that she joined the Archive and the committee on the same day! Elissa is also a musician and works with Jazz Heritage Wales (formerly Women in Jazz).

Ten bi-monthly meetings were held, eight by video-conference between Swansea and Bangor and two face-to-face meetings – one in July 2015 hosted by Bangor University Library, and one in March 2016 in Abergavenny. In addition, a number of smaller working groups met for various purposes during the year.

I thank all my colleagues on the committee: Avril Rolph - Administrative Secretary; Gail Allen - Treasurer; Sue Thomas – Membership Secretary, who also organises the video-conference facilities for our meetings; Shan Robinson – Minutes Secretary; Val Wakefield and Sue Trevelyan Jones who, together with Shan, keep the Women's Archive flag flying in North Wales; Catrin Stevens, who besides much else does the greater part of Welsh translation for the Archive; Caroline Fairclough – Newsletter and Website Editor; Elin Jones, who gives us the benefit of her wide experience in education, Welsh history and management of charities; Catrin Edwards, who brings professional knowledge of her work in the media; and Elissa Evans whose enthusiasm and (comparative) youth is an inspiration to us all; and, of course, our President, Professor Deirdre Beddoe, without whom the Archive might never have happened. Naturally, we all do various other chores and co-operate on organising the conference and other events and projects. Thanks also to our four co-opted advisers, Susan Edwards and Rhian Diggins of Glamorgan Archives; Jen Wilson; and Yvonne Jardine.

We are also deeply grateful to the Heritage Lottery Fund for once again grant-aiding our latest research project (Women and World War I), to Swansea Council for Voluntary Services, and to the Wales Video Network for allowing us the use of their facilities in Swansea and Bangor. Finally, our thanks to all the members of Archif Menywod Cymru/Women's Archive of Wales for their support and enthusiasm.

PWYLLGOR AMC/WAW

Mae un a rddeg aelod, pedair ymgynghorydd a'r Llywydd ar ein pwyllgor. Mae gan bob un rôl arbennig i'w chyflawni, ac rydym yn gweithio fel grŵp hefyd i hyrwyddo amcanion yr Archif a sicrhau bod ein mudiad yn rhedeg yn esmwyth. Yn ystod y flwyddyn roeddem yn drist i golli dwy aelod o'r pwyllgor, Betty Foster, oherwydd galwadau teuluol, a Natalie Davies, yr oedd ei gwaith newydd yn mynd â hi'n rhy bell i Loegr fel na allai fynychu ein cyfarfodydd. Yn eu lle rydym wedi croesawu Catrin Edwards, cyn-weithiwr prosiect Lleisiau o Lawr y Ffatri, cerddor dawnus a chyfarwyddwr a chynhyrchydd teledu ac Elissa Evans, a gafodd ei hysbrydoli gan gynhadledd 2015 - ymunodd â'r Archif a'r pwyllgor ar yr un diwrnod! Mae Elissa'n gerddor hefyd ac mae'n gweithio gyda Threftadaeth Jazz Cymru (Menywod mewn Jazz gynt).

Cynhaliwyd deg cyfarfod deufisol, wyth trwy gynadledda fideo rhwng Abertawe a Bangor a dau gyfarfod wyneb yn wyneb – un yng Ngorffennaf 2015 yn Llyfrgell Prifysgol Bangor ac un ym Mawrth 2016 yn Y Fenni. At hyn, bu nifer o is-grwpiau yn cyfarfod am resymau amrywiol yn ystod y flwyddyn.

Rwyf am ddiolch i'm holl gydweithwyr ar y Pwyllgor: Avril Rolph – Ysgrifennydd Gweinyddol; Gail Allen - Trysorydd; Sue Thomas – Ysgrifennydd Aelodaeth, ac sy'n trefnu'r cynadledda fideo yn ogystal ar gyfer ein cyfarfodydd; Shan Robinson – Ysgrifennydd Cofnodion; Val Wakefield a Sue Trevelyan Jones sydd, gyda Shan yn cadw fflam yr Archif ynghyn yng ngogledd Cymru; Catrin Stevens, sydd ynghyd â nifer o bethau eraill yn gwneud y rhan fwyaf o'r cyfieithu i'r Gymraeg ar ran yr Archif; Caroline Fairclough – Golygydd y Cylchlythyr a'r wefan; Elin Jones, sy'n rhannu gyda ni ei phrofiad eang ym meysydd addysg, hanes Cymru a rheoli elusennau; Catrin Edwards, sy'n cyfrannu ei gwybodaeth broffesiynol o'i gwaith gyda'r cyfryngau; ac Elissa Evans y mae ei brwdfrydedd a'i hieuenctid (cymharol) yn ysbrydoliaeth i ni i gyd; ac wrth gwrs ein Llywydd, yr Athro Deirdre Beddoe, na fyddai'r Archif efallai yn bodoli hebddi o gwbl. Wrth reswm, mae pob un ohonom yn cyflawni tasgau eraill ac yn cydweithio i drefnu'r gynhadledd a digwyddiadau a phrosiectau eraill. Diolch hefyd i'n pedair ymgynghorydd gyfetholedig, Susan Edwards a Rhian Diggins, Archifau Morgannwg; Jen Wilson; ac Yvonne Jardine.

Rydym yn ddiolchgar iawn unwaith eto i Gronfa Dreftadaeth y Loteri am roi grant inni ar gyfer ein prosiect diweddaraf (Menywod yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf), i Wasanaeth Gwirfoddol Cyngor Abertawe, ac i Rwydwaith Fideo Cymru am ganiatâu i ni ddefnyddio'r cyfleusterau yn Abertawe a Bangor. Yn olaf, diolch i holl aelodau Archif Menywod Cymru/ Women's Archive of Wales am eu cefnogaeth a'u brwdfrydedd.

Jenny Sabine, Chair / Cadeirydd AMC/WAW.

MEMBERSHIP SECRETARY'S REPORT 2015-2016

Over the past year we have gained 27 new members. However there have also been a number of members who have chosen or been unable, for various reasons, to continue with their subscription. The membership figure refers to the total number of members with full voting rights and currently stands at 246.

The membership is varied and includes organisations from the heritage sector including Archives, Libraries, Museums and other cultural associations:
Members can be found across Wales, outside Wales in areas such as Yorkshire, and in countries such as Northern Ireland, Scotland and Australia.

Members' subscriptions remain the main source of income for the organisation. The subscription rates have remained unchanged since WAW was founded: £5 / £10 for individuals, £15 for organisations.
Membership is also available to give as a gift with one year's subscription being £10, two years £17 and three years £25.

Membership forms are available on the website:
www.womensarchivewales.org

Sue Thomas
Membership Secretary

ADRODDIAD YR YSGRIFENNYDD AELODAETH 2015-2016

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi ennill 27 o aelodau newydd. Fodd bynnag, mae nifer o aelodau sydd wedi dewis neu wedi methu, am amryfal resymau, adnewyddu eu tanysgrifiadau. Mae'r ffigur aelodaeth yn cyfeirio at gyfanswm yr aelodau â hawliau pleidleisio llawn ac ar hyn o bryd 246 yw'r cyfanswm.

Mae'r aelodaeth yn amrywio ac yn cynnwys sefydliadau o'r sector treftadaeth, yn eu plith Archifdai, Llyfrgelloedd, Amgueddfeydd a chymdeithasau diwylliannol eraill.
Mae gennym aelodau ar hyd a lled Cymru a thu hwnt, er enghraifft yn Swydd Efrog, ac mewn gwledydd fel Gogledd Iwerddon, yr Alban ac Awstralia.

Tanysgrifiadau aelodau yw prif incwm y mudiad o hyd. Mae'r ffioedd aelodaeth wedi parhau yn ddigyfnewid ers sefydlu AMC: £5 / £10 i unigolion, £15 i sefydliadau.
Gellir rhoi aelodaeth fel rhodd hefyd, gyda thanysgrifiad blwyddyn yn £10, dwy flynedd £17 a thair blynedd £25.

Ceir ffurflenni aelodaeth ar y wefan:
www.womensarchivewales.org

Sue Thomas
Ysgrifennydd Aelodaeth

TREASURER'S REPORT 2015-16

Both of the Heritage Lottery Fund projects (Voices from the Factory Floor and Women in World War 1) have come to an end, or will very shortly do so. Money has been put aside to maintain the specific websites for both these projects, hopefully for the next 10 years.

Our basic funds come mainly from the annual membership subscriptions and Gift Aid. The annual conference is usually self-financing. The Eisteddfod with simultaneous translation is one of our committed annual costs, though the amount is small (and the benefit is large). There are the usual administration costs of course, as detailed in the audited accounts. We spent more than our income in the current year.

The new AMC/WAW website will make major inroads into our basic finances. I am also concerned about the Ursula Masson Memorial Fund because we now need to contribute to the costs of the annual lecture. And we award a prize of £300 annually as part of the Welsh History Schools Initiative.

Fundraising is urgently needed to maintain the basic profile and activities of the Archive in the future.

Gail Allen

ADRODDIAD Y TRYSORYDD 2015-16

Mae'r ddau brosiect a gyllidwyd trwy Gronfa Treftadaeth y Loteri (Lleisiau o Lawr y Ffatri a Menywod a'r Rhyfel Byd Cyntaf - y profiad Cymreig) bellach wedi dod i ben, neu fe fyddant cyn bo hir. Rhoddwyd arian i'r naill ochr i gynnal gwefannau penodol ar gyfer y ddau brosiect, am y deng mlynedd nesaf gobeithio.

Daw ein cyllid sylfaenol yn bennaf o'n tanysgrifiadau aelodaeth blynyddol ac o Gymorth Rhodd. Gan amlaf mae'r gynhadledd flynyddol yn talu amdani ei hun. Mae'r Eisteddfod a'r cyfieithu ar y pryd yn un o'n hymrwymiadau cyllidol blynyddol, ond mae'n gost yn fach (a'r budd yn fawr). Mae costau gweinyddol wrth gwrs, gwelir y manylion yn y cyfrifon archwiliedig. Gwarion ni fwy na'n hincwm yn ystod y flwyddyn gyfredol.

Bydd gwefan newydd AMC/WAW yn gwneud cryn argraff ar ein cyllid sylfaenol. Rwy'n bryderus hefyd am Gronfa Goffa Ursula Masson gan y bydd gofyn i ni gyfrannu yn awr at gostau'r ddarlith flynyddol. At hyn, rydym yn rhoi gwobr flynyddol o £300 tuag at Fenter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig.

Mae angen dybryd codi arian i gynnal proffil a gweithgareddau sylfaenol yr Archif yn y dyfodol.

Gail Allen

World War 1 Photographs / Darluniau y Rhyfel Byd Cyntaf

Cover/ Clawr: Gertrude Rosewarne in VAD uniform / Gertrude Rosewarne yn ei gwisg VAD
Page 3: Beatrice Cope with her son Eric, possibly early 1916. He was killed on the first day of the Battle of the Somme / Beatrice Cope cyda'I mab Eric, ddechrau 1916 mae'n debyg. Cafodd ei ladd ar ddiwrnod cyntaf Brwydyr y Somme.
Page 12: Amy Goodwn with colleagues, QMAAC, Bourges, France, c1918 /Amy Goodwin gyda chydweithwyr o Gorfflu Atodol Byddin y Frenhines Mary (QMAAC), Bourges, Ffrainc, tua1918.

AMC / WAW Trustees **AMC / WAW Ymddiriedolwyr (2015-16)**

Jenny Sabine (Chair / Cadeirydd)

Gail Allen (Treasurer / Trysorydd)

Avril Rolph (Secretary / Ysgrifennydd)

Sue Thomas (Membership Secretary / Ysgrifennydd Aelodaeth)

Catrin Stevens (Welsh language advisor / Ymgynghorydd y Gymraeg)

Caroline Fairclough (Newsletter Editor / Golygydd Cylchlythyr & Web Manager / Rheolwr y Wefan

Shan Robinson (Minutes Secretary / Ysgrifennydd Cofnodion)

Sue Trevelyan-Jones

Elin Jones

Val Wakefield

Elissa Evans

Advisers

Susan Edwards /Rhian Diggins, Glamorgan Archives - Archives Advisors / Ymgynghorydd Archifau

Jen Wilson (Jazz Heritage Wales),

Yvonne Jardine

Archif Menwyod Cymru / Women's Archive of Wales
c/o Archifau Richard Burton / c/o Richard Burton Archives,
Y Ganolfan Llyfrgell a Gwybodaeth / Library and Information Services,
Prifysgol Abertawe / Swansea University,
Parc Singleton / Singleton Park, Abertawe / Swansea SA2 8PP